Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

# SWYDDOG GWEINYDDOL

**RHIF Y SWYDD: NU421**

**RHAN AMSER: 16 AWR YR WYTHNOS**

**GRADD 5: £24,294 to £24,702 y flwyddyn (Pro Rata)**

**Cymraeg Hanfodol**

Mae'r swydd wag barhaol uchod wedi codi o fewn ein Hadran Cymorth Busnes, Gwasanaethau Corfforaethol, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX.

Bydd deiliad y swydd yn darparu cymorth gweinyddol cyffredinol i'r Goruchwyliwr Gweinyddol a phob cyfarwyddiaeth ar draws y sefydliad. Bydd prif gyfrifoldebau'r rôl o ddydd i ddydd yn cynnwys monitro mewnflychau e-bost, llungopïo, sganio, lanlwytho dogfennau i wefan a mewnrwyd y Gwasanaeth, gweithio gyda systemau ffeilio a chronfeydd data, ateb galwadau ffôn a mewnbynnu data'n gywir. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gyflenwi yn y Dderbynfa yn ôl y gofyn, a bydd hyn yn cynnwys dyletswyddau switsfwrdd a chasglu ac anfon post ar draws y sefydliad.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus gymhwyster NVQ Lefel 2 mewn Gweinyddu Busnes (neu gymhwyster cyfwerth) yn ogystal â phrofiad o weithio mewn amgylchedd gweinyddol. Mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon, ac rydym yn chwilio am ymgeiswyr sy'n gallu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg ar Lefel TGAU (Canolradd) neu uwch.

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg. I weld y buddion o weithio gyda ni, ymwelwch â: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-i-ni/buddion/

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad llwyddiannus gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ogystal â phrawf cyffuriau ac alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **12:00 ganol dydd, 15/05/2024.**

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu drwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddigwagdiweddaraf/ Os mai fersiwn papur sydd ei hangen, anfonwch e-bost at: personel@decymru-tan.gov.uk. Dylai pob ymgeisydd mewnol ymgeisio trwy law eu porth CORE, gan ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith.

Sylwch y bydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau trwy'r cyfeiriad e-bost a ddarperir yn y cais; dylech sicrhau eich bod yn gwirio pob ffolder post yn rheolaidd.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

**Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.**

Cyflogwr Cyflog Byw ydym ni

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG